



Cyfarfod

**PWYLLGOR IAITH**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 12FED TACHWEDD, 2020**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

**01286 679 878**

(Dosbarthwyd 4 Tachwedd 2020)

## **PWYLLGOR IAITH**

### **AELODAETH (15)**

#### **Plaid Cymru (8)**

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards  
Aled Ll. Evans  
Elin Walker Jones  
Elfed Williams

Alan Jones Evans  
Judith Mary Humphreys  
Olaf Cai Larsen  
Charles Wyn Jones

#### **Annibynnol (5)**

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones  
Kevin Morris Jones  
Eirwyn Williams

Eric M. Jones  
John Pughe Roberts

#### **Llais Gwynedd (1)**

Y Cyngorydd

Alwyn Gruffydd

#### **Annibynnol Unedig Gwynedd (1)**

Sedd Wag - Annibynnol Unedig Gwynedd

#### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

#### **Aelod arall a wahoddir**

Y Cyngorydd Nia Jeffreys, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol– Y Gymraeg

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2020/2021

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is gadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2020/2021

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION

4 - 12

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 16 o Ionawr 2020 fel rhai cywir

## 7. TROSOLWG O EFFAITH COVID 19 AR WASANAETHAU A GWEITHGAREDDAU A GYNHELIR TRWY'R GYMRAEG

13 - 21

I ystyried yr adroddiad

## 8. SAFONAU'R GYMRAEG A PHOLISI IAITH Y CYNGOR

22 - 25

I ystyried yr adroddiad

---

## PWYLLGOR IAITH 16 IONAWR 2020

---

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Elin Walker Jones (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd Cai Larsen (Is-gadeirydd).

**Y CYNGHORWYR:** Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Alwyn Gruffydd, Judith Humphreys, Elwyn Jones, Eric M Jones, Kevin Morris Jones, Eirwyn Williams ac Elfed Williams,

**SWYDDOGION:** Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Gwenllian Mair Williams (Swyddog Datblygu Iaith Gweithle), Siôn Elwyn Hughes (Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**ERAILL A WAHODDWDYD:** Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Cefnogaeth Corfforaethol) ac Edgar Wyn Owen (Cadeirydd y Cyngor).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:**

Aled Roberts (Comisiynydd y Gymraeg)  
Garem Jackson (Pennaeth Addysg)  
Debbie A.W.Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg)  
Bet Huws (Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd – Meirionnydd)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:**

Garem Jackson (Pennaeth Addysg)  
Debbie A.W.Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 8:**

Sophie A.Hughes (Swyddog Cefnogi Busnes)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 9:**

Sian Wyn Griffiths (Rheolwr Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Charles Wyn Jones.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYD**

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion bryd.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 7fed o Dachwedd, 2019 fel rhai cywir, yn amodol ar gywiro ail frawddeg y paragraff olaf ond un dan eitem 4 – Cofnodion (9 Gorffennaf, 2019) i ddarllen fel a ganlyn:-

“Penderfynwyd y dylai'r llythyr\* a anfonwyd gael ei adolygu yn y cyfarfod nesaf.”

*[\*Llythyr gan y Swyddog Datblygu Iaith yn y Gweithle at Grŵp Llandrillo Menai ynglŷn ag ennyn diddordeb ac ymrwymiad tiwtoriaid y Grŵp yn y gynhadledd a drefnwyd ar gyfer pobl ifanc i drafod gwerth y Gymraeg fel sgil ar gyfer byd gwaith.]*

Holwyd hefyd lle ar y rhaglen roedd y llythyr yn ymddangos. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Cadeirydd fod y llythyr wedi'i anfon, a phetai'r aelodau'n dymuno copi, y gellid trefnu hynny. Nid oedd yn ymwybodol bod ateb wedi'i dderbyn i'r llythyr hyd yma.

Gan gyfeirio at eitem 5 o'r cofnodion – Cynllun Arfor, nododd y Cadeirydd fod llythyr wedi'i anfon at Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, yn unol â chais y pwyllgor, yn gofyn am ymrwymiad y Llywodraeth i'r cynllun. Derbyniwyd ateb awtomatig i'r llythyr, ond ni chafwyd ymateb llawn hyd yma.

## 5. COMISIYNYDD Y GYMRAEG

Croesawyd Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg i'r cyfarfod i roi cyflwyniad i'r aelodau ar ei waith.

Rhoddodd y Comisiynydd amlinelliad o'r hyn roedd yn weld fel pwrpas ei rôl, gan fanylu ar ei argraffiadau o sefyllfa'r Gymraeg ar draws Cymru. Amlygodd y prif bwyntiau a ganlyn yn ystod ei gyflwyniad:-

- Ei fod yn awyddus iawn i wybod beth oedd yr heriau o safbwynt y Cyngor hwn ac i weld pa gymorth y gallai ei swyddfa ei gynnig.
- Yn dilyn cychwyn yn ei swydd yn Ebrill 2019, iddo fynd o gwmpas Cymru am 6 mis i geisio deall yn iawn beth oedd gwir sefyllfa'r Gymraeg, a'i fod wedi gweld bod y sefyllfa'n amrywio'n fawr o un rhan o Gymru i'r llall, gyda rhai mannau'n gwneud iddo deimlo'n obeithiol ac eraill yn gwneud iddo deimlo'n isel ar adegau.
- Bod gweinyddu mewnol Cymraeg a rhai o bolisiau Cyngor Gwynedd i'w canmol a bod lle efallai i ledaenu'r ymarfer da yma ar draws Cymru.
- Er mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru oedd Strategaeth Iaith Gymraeg 2050, bod lle iddo yntau, fel Comisiynydd, sicrhau bod y grymoedd oedd ganddo yn atgyfnerthu'r strategaeth honno.
- Mai blaenoriaethau Swyddfa'r Comisiynydd yn y blynyddoedd cyntaf o ran y safonau ac o ran awdurdodau lleol fu i sicrhau bod dogfennau a gwasanaethau ar gael yn ddwyieithog, ond erbyn hyn roedd disgwyl i awdurdodau lleol fod yn hunan reoleiddwyr i raddau.
- Bod yna safonau llawer pwysicach na hynny o ran dyfodol yr iaith, sef safonau yn ymwneud â'r angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth leol asesu effaith amrywiol bolisiau ar y Gymraeg a safonau'n ymwneud â gweinyddu mewnol.
- Ei fod hefyd yn awyddus iawn i wneud mwy o waith o ran y cynlluniau hybu, gan mai'r unig ofyn ar gynghorau ar hyn o bryd oedd eu bod yn paratoi cynllun bob 5 mlynedd, ac nid oedd unrhyw gyfeiriad at fonitro na herio'r cynlluniau hynny. Gan

hynny, roedd yn awyddus bod y Swyddfa yn edrych ar yr hyn oedd yng Nghynllun Hybu Gwynedd.

- Bod dyletswyddau'r Swyddfa wedi'u rhannu rhwng cyfrifoldebau rheoleiddio a chyfrifoldebau hybu. Roedd gofyniad o fewn y ddeddf bod y Swyddfa'n cyflawni'r cyfrifoldebau rheoleiddio, ond wrth i'r cyfrifoldebau hynny gynyddu, a'r adnoddau brinhau, roedd yn mynd yn fwyfwy anodd gwneud y gwaith hybu. Gan hynny, roedd yn rhaid rhywsut sicrhau bod adnoddau yn cael eu rhyddhau yn fewnol i alluogi i'r Swyddfa wneud mwy o waith hybu.
- Er y cytunai gyda phob pwynt yng Nghynllun Hybu Gwynedd, bod lle i ofyn pa mor lwyddiannus oedd y Cyngor o ran yr hyn yr anelid ato, e.e. o ran yr asesiad digonolrwydd gofal plant, roedd tua 40% o'r lleoliadau o fewn sefyllfaedd dwyieithog, ond nid oedd yna unrhyw ddiffiniad o 'sefyllfa ddwyieithog'.
- Bod sefyllfa'r Gymraeg yn amrywio'n fawr ar draws Gwynedd ac nad oedd wedi sylweddoli cynt bod rhai ardaloedd o'r sir mor Seisnigaidd. Cyfeiriodd yn benodol at y gwaith rhagorol oedd yn cael ei wneud gan bennaeth Ysgol Bro Idris o ran Cymreigio'r ysgol mewn amgylchiadau anodd iawn.
- Bod y ffaith bod plant yn siarad Cymraeg yn rhugl erbyn cychwyn addysg uwchradd yn amlygu cryfder polisi addysg gynradd y sir, ond roedd lle i'r Cyngor edrych ar ei bolisi addysg o ran yr uwchradd. Roedd lle hefyd i gwestiynu'r hyn oedd yn digwydd o ran trosglwyddo ieithyddol o fewn y cartref gan ei bod yn ymddangos mai'r ysgol, ac nid y cartref, oedd yn amddiffyn y Gymraeg bellach. Roedd yn bwysig hefyd nad oedd plant yn ystyried mai ond yn yr ysgol roedd y Gymraeg o bwys.
- Bod y ddarpariaeth addysg Gymraeg yn gallu bod yn gymysglyd ac yn anghyson mewn rhai ysgolion dwyieithog, gyda llai nag a ddylai o'r disgyblion yn sefyll 5 neu fwy TGAU drwy'r Gymraeg.
- Bod y sgwrs yn parhau o ran beth oedd yn digwydd ôl-16. Nid oedd yna unrhyw addysg cyfrwng Cymraeg o fewn addysg bellach yn y De Ddwyrain, ac roedd tua 85% o'r gwariant ar y Gymraeg mewn addysg bellach yn mynd i ddau goleg yng Nghymru.
- Bod lle i ddiolch i Wynedd am y camau a gymerwyd o safbwynt prentisiaethau.
- Bod yr holl strategaethau o ran yr iaith yn dangos nad oedd pobl ifanc a fu mewn addysg Gymraeg yn parhau i ddefnyddio'r Gymraeg ar ôl cyrraedd 16 oed, nac yn dwyn eu plant i fyny maes o law i siarad yr iaith yn naturiol. Golygai hynny bod rhaid buddsoddi miliynau yn cyflwyno'r iaith i'r genhedlaeth nesaf o blant yn yr ysgolion ac nid oedd y sefyllfa'n gynaliadwy. Roedd angen sicrhau bod gan yr awdurdodau iechyd strategaethau o ran cyflwyno'r iaith i rieni ifanc ac roedd cyfrifoldebau ar awdurdodau lleol i sicrhau bod gofal plant ar gael yn Gymraeg yn lleol ar gyfer y rhieni ifanc hynny. Hefyd, roedd yn rhaid atgyfnerthu sefyllfa'r Gymraeg o fewn yr ysgolion a sicrhau bod hynny'n parhau drwedd i'r uwchradd ac ymlaen i addysg ôl-16.
- Bod cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth a Llywodraeth Prydain i sicrhau cyfleoedd gwaith i bobl ifanc yn y Gogledd Orllewin, a bod cyflogau sy'n seiliedig ar y gwasanaeth sifil yn cael eu talu yng Ngwynedd. Rhaid cofio hefyd bod colli swyddi yng Ngogledd Cymru, yn enwedig y Gogledd Orllewin, yn cael mwy o ardrawiad oherwydd sefyllfa fregus yr economi.
- Nad oedd Cymraeg 2050 yn diffinio 'siaradwr Cymraeg', ond bod yna ail darged oedd yn bwysicach, sef ein bod yn cynyddu'r ganran sy'n defnyddio Cymraeg yn ddyddiol o'r 10% presennol i tua 20% erbyn 2050. Roedd llawer iawn mwy o obaith o gyrraedd y nod os oedd y Gymraeg yn dal ei thir, neu'n ennill tir, yng

Ngwynedd oherwydd bod yna lawer mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol yng Ngwynedd nag mewn mannau eraill.

- Na ddymunai weld Cymru yn yr un sefyllfa ag Iwerddon. Y Wyddeleg oedd iaith gyntaf swyddogol Iwerddon, ond o'r 1.76m o bobl oedd yn dweud eu bod yn medru siarad yr iaith (sef canran eithaf tebyg i'r targed o 1m o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050) dim ond 56,000 oedd yn dweud eu bod yn defnyddio'r iaith yn ddyddiol. Hawdd meddwl, oherwydd bod gan yr iaith statws am y tro cyntaf, ein bod yn ennill y frwydr, ond ar ein haelwydydd y byddai'r frwydr yn cael ei hennill, o fewn y gweithleoedd ac yn y colegau.
- Ei fod yn obeithiol am y dyfodol ac yn gweld newid o ran y safonau, ac erbyn hyn, nid oedd modd i unrhyw gyngor herio Swyddfa'r Comisiynydd o safbwynt yr hyn y dylent wneud o ran y Gymraeg, gan ei fod yn ddeddfwriaeth bellach. Er hynny, roedd yna lawer mwy o waith i'w wneud o ran hybu, a hybu defnydd o'r Gymraeg yn arbennig.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Diolchwyd i'r Comisiynydd am roi dogn o realaeth i'r pwyllgor, a phwysleisiwyd pwysigrwydd cynyddu a gwella'r hyn oedd gennym.
- Mynegwyd gobaith y byddai categorieiddio'r ysgolion yn cael ei wireddu.
- Nodwyd na ddeellid pam ein bod yn annog ein pobl ifanc i fynd i golegau y tu allan i Gymru, a pham bod Llywodraeth Cymru yn talu i'w gyrru i'r llefydd hynny.
- Nodwyd bod y Cyngor hwn yn obeithiol ac yn uchelgeisiol o ran yr iaith, ac yn rhannu gweledigaeth y Comisiynydd o ran hybu defnydd yr iaith ac ymarfer da.
- Holwyd sut y gallai'r Cyngor gydweithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd i sicrhau mwy o gyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ym maes technoleg.
- Nodwyd bod y sector addysg bellach yn bwysig iawn o ran cynhyrchu siaradwyr Cymraeg a'i bod yn debygol bod mwy o siaradwyr Cymraeg yn cael eu cynhyrchu gan y system addysg nag ar yr aelwyd erbyn hyn.
- Nodwyd ei bod yn ymddangos mai'r ffordd o gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 oedd drwy gynyddu'r nifer o blant mewn addysg Gymraeg ledled Cymru, er y cydnabyddid bod y cynnydd hwnnw'n mynd i fod yn araf.
- Nodwyd bod y galw am addysg Gymraeg yn Ne Ddwyrain Cymru yn uwch na'r ddarpariaeth, a holwyd i ba raddau y gellid sicrhau bod unrhyw un a ddymunai derbyn addysg Gymraeg yn cael mynediad i hynny o fewn pellter rhesymol.
- Cyfeiriwyd at Ysgol y Traeth, Bermo fel enghraifft o ysgol oedd yn llwyddo i gyflawni gwaith arloesol o ran y Gymraeg mewn ardal heb draddodiad Cymraeg. Nodwyd bod cyflyru'r disgyblion a'u rhieni i weld mantais y Gymraeg fel pwnc a chyfrwng mewn ardaloedd o'r fath yn dalcen caled.
- Nodwyd bod y Gymraeg yn bwysig fel cymhwyster ar gyfer gyrfaoedd yng Ngwynedd ac yn cael ei gweld fel iaith cyfleon, ond bod angen rhoi mwy o bwysau ar awdurdodau eraill ar draws Cymru i benodi staff dwyieithog.
- Nodwyd bod y cynllun Doctoriaid Yfory yn gynllun da iawn sy'n torri tir newydd.
- Nodwyd bod Ysgol Gynradd Rhiwlas yn parhau i wneud gwaith da o ran y Gymraeg, ond bod y plant sy'n symud trosglwyddo i Ysgol Friars yn anghofio eu Cymraeg yn fuan iawn.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod yr Adran Gynllunio yn ystyried dylanwad unrhyw ddatblygiad ar yr iaith, boed wedi ei glustnodi yn y Cynllun Datblygu ai peidio.

Mewn ymateb i rai o'r sylwadau a'r cwestiynau uchod, nododd y Comisiynydd:-

- Iddo fod yn rhannol gyfrifol am lunio'r polisi ariannu myfyrwyr cyfredol, a bod cyngor cyfreithiol ar y pryd yn dweud nad oedd yn bosib' cyfyngu mynediad i golegau yng Nghymru.
- O ran technoleg, bod y cyfrifoldeb wedi trosglwyddo o Swyddfa'r Comisiynydd i'r Llywodraeth ers Medi'r llynedd, a bod hynny'n arwyddocaol, gan fod adnoddau'r Llywodraeth yn llawer iawn mwy a chanddynt fwy o ddylanwad o ran prynu systemau, ayb. Roedd cynrychiolwyr o'r Swyddfa yn trafod problemau a godwyd gan Gyngor Gwynedd o ran yr apiau Cymraeg gyda'r Llywodraeth ac roedd yn bwysig bod y Cyngor yn parhau i gyfeirio problemau ymarferol o'r fath at Swyddfa'r Comisiynydd fel y gellid symud ymlaen i'w datrys.
- Bod ateb y galw am addysg Gymraeg yn ddibynnol ar i ffigurau'r Llywodraeth o ran beth fydd ei angen o ran twf gyd-fynd gyda'r gwir alw. Credid bod digon o lacrwydd o fewn y system ar hyn o bryd i sicrhau bod hynny'n digwydd, ond petai yna fwy o alw na'r hyn oedd yn cael ei gynllunio gan y Llywodraeth a chan lywodraeth leol, byddai yna drafodaeth ddiddorol i'w chael. Ni fyddai'n golygu adeiladu ysgolion newydd ymhob man, ond byddai yna alw ar rai ysgolion i newid eu cyfrwng iaith. Roedd rhaid bod yn realistig hefyd ynglŷn â'r diffyg cynllunio dros y 10-15 mlynedd ddiwethaf o ran faint o athrawon cyfrwng Cymraeg oedd eu hangen i gyflenwi'r hyn oedd gennym ar hyn o bryd, heb sôn am y twf.
- Y cytunid bod angen cynyddu'r cyfleoedd oedd ar gael i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Cynhaliwyd asesiad o faint o'r cynghorau oedd yn dynodi swyddi fel rhai Cymraeg yn hanfodol a gwelwyd bod y prosesau yn eithaf elfennol, gyda rhai yn tueddu i ddefnyddio'r Gymraeg yn hanfodol o fewn yr Adran Addysg yn unig, ac eraill heb unrhyw ofynion ieithyddol. Nodwyd ymhellach bod y Llywodraeth wedi creu corff Addysg a Gwella Iechyd Cymru nad oedd yn dod o dan y safonau hyd yn oed, ac nid oedd prosiect 'Mwy na Geiriau' y Bwrdd Iechyd yn cael ei fonitro o gwbl. Cydnabyddid bod yr ymgais i ddenu mwy o feddygon Cymraeg yn ganmoladwy, ond roedd y Swyddfa'n derbyn mwy o gwynion iaith o ran y byrddau iechyd na llywodraeth leol. Nid oedd yna ddiffyg ymrwymiad i'r Gymraeg ar lefel strategol, eithr diffyg gweithredu ar lawr gwlad. Er mai'r cynghorau oedd ar flaen y gad o ran safonau, roeddent yn methu darparu gwasanaethau Cymraeg oherwydd eu methiant i benodi siaradwyr Cymraeg, a rhan o'i waith yn ystod y 6-7 mlynedd nesaf fyddai ceisio ei orau i gyflawni'r cylch fel nad oedd yr holl fuddsoddiad oedd yn cael ei wneud mewn addysg yn cael ei wastraffu.
- Bod y niferoedd oedd yn sefyll arholiadau Cymraeg iaith gyntaf yn Ysgol Friars yn codi. Roedd ysgolion yn marchnata eu hunain ar sail faint o raddau A\* - C roedd eu disgyblion yn dderbyn, ac roedd yn naturiol i deuluoedd di-gymraeg fod yn awyddus i'w plant sefyll arholiad Cymraeg ail iaith gan y byddent yn fwy tebygol o ennill gradd dda. Efallai bod angen gwneud yn sicr bod plant oedd wedi derbyn addysg gynradd Gymraeg yn sefyll arholiad Cymraeg iaith gyntaf, fel eu bod yn rhugl yn y Gymraeg wrth adael yr ysgol. Ychwanegodd nad oedd gan gategoreiddio ysgolion sail ddeddfwriaethol o gwbl. Roedd y ddarpariaeth yn gallu bod yn gymysglyd ac anghyson mewn rhai ysgolion dwyieithog, gyda llai yn astudio pynciau drwy'r Gymraeg nad a ddylai. Cyfeiriodd at ysgol benodol y tu allan i Wynedd oedd yn disgyn dan gategori dwyieithog 2A (a olygai bod 80% o'r disgyblion i fod i dderbyn addysg Gymraeg), gan nodi, pan edrychodd ar y ffigurau, y gwelodd mai 37% yn unig o'r disgyblion oedd yn sefyll arholiadau drwy'r Gymraeg mewn o leiaf pump o'u pynciau. Pan holwyd yr ysgol ynglŷn â'r sefyllfa, eglurwyd y byddai gwthio'r Gymraeg yn ormodol yn golygu y byddai'r ysgol yn colli plant i ysgol arall gyfagos. Roedd cyfrifoldeb hefyd ar y consortia addysg ac Estyn i dynnu sylw at unrhyw broblemau o safbwynt categori ieithyddol ysgolion o gymharu â'r hyn oedd yn digwydd o fewn y dosbarthiadau. Roedd y cyfrifoldeb cyfreithiol ar ysgwyddau'r cynghorau sir, ond anaml iawn y



byddai'r cyngorau'n gyrru pobl i mewn i ysgol i weld beth oedd yn mynd ymlaen. Yn ei dŷb ef, os oedd ysgol yn ddwyieithog, dylai'r plentyn fod yn gadael yr ysgol yn 16 oed yn medru'r Gymraeg, ond gan nad oedd hynny'n digwydd, roedd angen trafodaeth ynglŷn â chategoreiddio. Ni ellid cael cyfaddawd fel fu'n digwydd yn y gorffennol, gan nad oedd y cyfaddawd hwnnw'n gwneud dim ond gwanhau sefyllfa'r iaith.

- O ran cynllunio, bod lle i Lywodraeth Cymru benderfynu ai'r TAN 20 newydd neu'r ddeddfwriaeth oedd y ffordd ymlaen. Roedd sgwrs arall i'w chael gyda'r Arolygydd Cynllunio wrth iddynt symud i sefyllfa lle'r oedd yr Arolygiaeth Cynllunio ar gyfer Cymru'n unig. Efallai nad oedd y Gymraeg wedi bod yn gryfder o ran eu hasesiadau o dan y gyfundrefn hanesyddol, ond roedd hynny'n rhywbeth y byddai'n rhaid ei ddatblygu wrth symud ymlaen. Nid mater i'r cyngorau sir ydoedd, ond roedd angen gwneud yn siŵr bod yr holl gyfundrefn gynllunio yn talu sylw digonol i'r Gymraeg.

Diolchwyd i'r Comisiynydd am ei gyflwyniad diddorol ac ysbrydoledig ac am ymateb i gwestiynau a sylwadau'r aelodau. Mynegwyd dymuniad i'w wahodd yn ôl i'r pwyllgor i barhau'r drafodaeth a dymunwyd yn dda iddo yn ei waith.

Mewn ymateb, nododd y Comisiynydd y byddai'n awyddus i ddychwelyd i'r pwyllgor i drafod rhai o'r problemau ymarferol, megis addysg a chynllunio, gan fod pawb yn gweithio tuag at yr un nod.

Gwahoddwyd yr aelodau i gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd os oedd ganddynt unrhyw sylwadau neu gwestiynau pellach.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach gan aelod, cadarnhaodd y Comisiynydd nad oedd gan y Swyddfa rôl o safbwynt cywirdeb iaith mewn ysgolion nac o ran enwau tai a ffermydd, er bod ganddynt gyfrifoldeb o ran enwau pentrefi a threfi.

## **6. ADRODDIAD ADOLYGIAD BLYNYDDOL CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG (CSGA)**

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg yn gwahodd y pwyllgor i ystyried cynnwys yr adroddiad adolygu blynyddol a chynnig sylwadau.

Ymhellach i gynnwys yr adroddiad ac i gyflwyniad Comisiynydd y Gymraeg (eitem 5 uchod), nododd y Pennaeth Addysg:-

- Y cytunai'n llwyr fod y ddarpariaeth mewn ysgolion mewn perthynas â chategori 2A wedi bod yn wendid yn y gorffennol, ond ers dyfodiad y Strategaeth Iaith Uwchradd yng Ngwynedd, roedd gan yr awdurdod ddarlun clir o'r sefyllfa ymhob ysgol bellach. Roedd y wybodaeth honno'n hanfodol er mwyn llunio cynllun pwrpasol ar gyfer yr holl sefyllfaoedd ieithyddol gwahanol ym mhob ysgol er mwyn cryfhau, nid yn unig yr elfen defnydd cymdeithasol, ond hefyd i ddylanwadu ar gwricwlwm iaith.
- Na allai orbwysleisio i ba raddau roedd yr Adran yn ymfalchio yn y ffaith eu bod yn gallu darparu'r holl ystod o wasanaethau i'r dysgwyr mwyaf bregus drwy gyfrwng y Gymraeg (deiliant 6) a bod hyn yn glod i'r staff ac i weledigaeth y Cyngor a'r buddsoddiad a wnaed yn y maes yma.
- Bod y Gweinidog Addysg wedi llongyfarch Gwynedd ar y ffordd y bu i'r Cyngor sefydlu system addysg wahanol yn Nolgellau, a olygai bod Cymreictod yr

ysgolion cynradd bellach yn treiddio drwy Ysgol Bro Idris. Nododd hefyd y dymunai longyfarch y Pennaeth a'r staff a'r llywodraethwyr ar eu gwaith yn hyrwyddo, yn mynnu ac yn sicrhau bod y Gymraeg yn dal ei thir yn yr ysgol.

- Bod gan Bennaeth Ysgol Uwchradd Tywyn weledigaeth gadarn hefyd. Eto, fel Bro Idris, roedd Tywyn yn dalcen caled o ran dylanwadu'n gadarnhaol o ran y Gymraeg, ond roedd y modd y bu i'r ysgol fabwysiadu'r cynllun ar gyfer y Strategaeth Iaith Uwchradd wedi cael sylw cenedlaethol ac yn ffordd ymlaen i unrhyw sefydliad arall.
- Y gwelwyd egin sylweddol o newid yn Ysgol Friars hefyd, gyda'r nifer oedd yn sefyll Cymraeg iaith Gyntaf ar gynnydd.
- Bod canran y plant oedd yn dod i'r cyfnod sylfaen o aelwydydd di-gymraeg ar gynnydd. Roedd dirywiad mewn sgiliau cymdeithasol plant yn ffactor hefyd, gyda phlant yn cychwyn y cyfnod sylfaen heb sgiliau cyfathrebu mewn unrhyw iaith, ac roedd y ffaith bod bron pob un ohonynt yn cael eu hasesu drwy'r Gymraeg ar ddiwedd blwyddyn 2 yn dyst i lwyddiant y cyfnod sylfaen yng Ngwynedd.
- Y credid bod camau breision yn digwydd yn yr uwchradd hefyd yn sgil y ffaith bod gan Wynedd y Strategaeth Iaith Uwchradd gyntaf o ran hyrwyddo'r Gymraeg yng Nghymru.
- Bod llwyddiant y Siarter Iaith Cynradd wedi lledaenu drwy Gymru erbyn hyn a bod hynny o ganlyniad i weledigaeth ysgolion cynradd Gwynedd yn ei fabwysiadu yn 2011.
- Bod Estyn bellach, am y tro cyntaf, yn mesur i ba raddau roedd ysgolion yn mesur defnydd anffurfiol plant o'r Gymraeg, a bod hynny'n deillio'n uniongyrchol o gyfarfod yng Nghaerfyrddin yn 2013 lle cyflwynwyd copi o Siarter Iaith Gwynedd i'r Prif Arolygydd Ysgolion ar y pryd.
- Y cytunai â'r Comisiynydd fod angen herio beth oedd cyd-destun ysgol o ran dwyieithrwydd a bod lle i fynd hefyd o ran wynebu a gallu adrodd ar realiti ein hysgolion, ond roedd y ffaith bod cydnabyddiaeth o hynny yn gam pwysig ymlaen.

Rhoddyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Ategwyd y ffaith bod gwaith gwych yn digwydd yn Ysgol Bro Idris ac yn Ysgol Uwchradd Tywyn.
- Nodwyd, oherwydd canfyddiad bod Ysgol Friars yn ysgol Saesneg, bod plant yn teithio yno o ardaloedd megis Porthmadog, a gofynnwyd am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r cynllun peilot i ddatblygu sgiliau iaith y gweithlu.
- Nodwyd, er bod nifer o blant yn sefyll TGAU Cymraeg iaith gyntaf, bod llawer llai yn dilyn pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg, a holwyd a oedd data ar gael o ran pa mor dda mae'r grŵp yma o blant yn siarad Cymraeg.

Mewn ymateb i rai o'r sylwadau a'r cwestiynau uchod, nodwyd:-

- Bod y cynllun peilot i ddatblygu sgiliau iaith y gweithlu yn Ysgol Friars wedi ei gyllido drwy grant oedd yn dod i'r rhanbarth ac wedyn yn cael ei ddyrannu. Defnyddiwyd yr arian grant yma dros gyfnod o amser i gyflogi tiwtor iaith i weithio gyda rhai o athrawon yr ysgol, er mwyn datblygu eu sgiliau a'u hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth, gan ddatblygu elfen o Gymraeg o fewn eu

hadnoddau addysgol hefyd. Nid proses dros nos fyddai caffael y sgiliau hynny ac ni osodwyd targed penodol ar gyfer hynny. Er hynny, roedd yr Adran yn cydweithio'n agos gyda'r ysgol ac yn dylanwadu lle'r oedd modd gwneud hynny.

- Bod hwn yn gyfnod cyffrous iawn yng Ngwynedd yng nghyd-destun y Gymraeg, gyda'r Siarter Iaith wedi'i hen sefydlu, a'r Strategaeth Iaith Uwchradd yn cael mwy o ddylanwad ar garfan o blant yng nghyd-destun y Gymraeg yn ffurfiol ac yn anffurfiol na fu erioed o'r blaen.
- Bod y Gwasanaeth hefyd yn cynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd yn sgil gwaith yr Athro Donaldson, fyddai'n dod yn gynyddol bwysicach ym mywydau ein hysgolion.
- Y comisiynwyd darn o waith i edrych ar y ddarpariaeth ôl-16 yng Ngwynedd, gyda ffocws penodol ar yr elfen 6ed dosbarth yn Arfon, er mwyn gweld a oedd achos dros newid y drefn bresennol. Roedd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn greiddiol i'r brieff ar gyfer y gwaith yma ac roedd rhaid torri'r canfyddiad bod addysg ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg yn rwystr i bobl ifanc.
- Gan fod cymaint yn digwydd yn y maes yma ar hyn o bryd, penderfynwyd sefydlu Bwrdd Prosiect o gwmpas y Gymraeg, a nodwyd y byddai'r Adran yn falch o roi adroddiadau crynodol ac amserol i'r pwyllgor ar y gwaith fel ffordd o ddangos beth roedd yr Adran yn ei wneud ym maes y Gymraeg yn ei gyfanrwydd.
- Ei bod ychydig yn gynamserol i gyflwyno data o ran defnydd iaith fwy anffurfiol y disgyblion hynny oedd yn sefyll TGAU, ond gobeithid gweld maes o law bod cyswllt rhwng y rhai oedd yn dilyn nifer o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r defnydd a wneid ganddynt o'r Gymraeg. Dyma un rheswm pam bod angen rhoi sylw penodol i'r cyfrwng ar draws y cwricwlwm gan mai hyn oedd yn mynd i roi'r sgiliau a'r hyder i'r dysgwyr allu defnyddio'r Gymraeg mewn ystod o wahanol sefyllfaoedd, yn hytrach na'r Gymraeg fel pwnc yn unig.

Awgrymodd y Cadeirydd, gan fod yna dipyn o gwestiynau a thipyn o drafodaeth i'w chael eto, y dylai'r pwyllgor graffu ymhellach ar yr adroddiad. Diolchodd i'r Pennaeth Addysg am awgrymu bod adroddiadau rheolaidd yn dod yn ôl i'r pwyllgor ac awgrymodd y dylai cynrychiolydd o'r pwyllgor eistedd ar y Bwrdd Prosiect o gwmpas y Gymraeg i graffu'r cynllun oherwydd ei fod mor gynhwysfawr, a hefyd i ddiwallu'r angen i gefnogi'r Pennaeth Addysg gyda'r cynllun.

**PENDERFYNWYD cynnig y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Cynghorydd Alwyn Gruffydd er ystyriaeth gan yr Adran i fod yn aelodau o'r Bwrdd Prosiect er mwyn craffu'r cynllun ymhellach.**

## **7. ADRODDIAD AELOD CABINET**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet yn rhoi diweddariad ar y prif ddatblygiadau ym maes y Gymraeg ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor.

Gan nad oedd amser yn caniatáu rhoi ystyriaeth lawn i'r adroddiad a bod yr Aelod Cabinet yn gorfod gadael y cyfarfod ar y pwynt yma, gwahoddwyd yr aelodau i gysylltu gydag unrhyw gwestiynau ar yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## **8. IECHYD MEDDWL A'R IAITH GYMRAEG**

Derbyniwyd cyflwyniad gan y Swyddog Cefnogi Busnes ar y ddarpariaeth iechyd meddwl trwy gyfrwng y Gymraeg, yn deillio o'i gwaith ymchwil ar gyfer ei gradd meistr.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am y cyflwyniad gan bwysleisio bod casgliadau'r gwaith ymchwil yn profi'r angen ieithyddol am y ddarpariaeth yma.

**PENDERFYNWYD** cytuno â chasgliadau'r gwaith ymchwil a gwahodd y Swyddog Cefnogi Busnes i gynnal gweithdy ar y pwnc yma gyda holl aelodau'r Cyngor gan fod yna gymaint o gyfoeth o wybodaeth yn y cyflwyniad, a honno'n wybodaeth sy'n berthnasol i bawb, ac oherwydd bod y swyddog wedi gorfod rhuthro drwy ei chyflwyniad gan fod amser yn brin.

#### **9. TREFNIADAU GWEITHIO MEWN SEFYLLFA DDWYIEITHOG – TIMAU ADNODDAU CYMUNEDOL**

**PENDERFYNWYD** gohirio'r eitem tan y cyfarfod nesaf gan nad oedd amser bellach yn caniatáu rhoi sylw teg i'r adroddiad, a hefyd gan nad oedd awdur yr adroddiad, sef Arweinydd Rhaglen Trawsfurfio Iechyd a Gofal Cymunedol (Gwynedd a Môn) yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

#### **10. ADRODDIAD CANMOLIAETH A CHWYNION**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Ymgynghorydd Iaith yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am gwynion ac enghreifftiau o lwyddiant wrth hybu defnydd o'r Gymraeg yng ngwasanaethau'r Cyngor.

Eglurodd yr Ymgynghorydd Iaith fod nifer o'r cwynion yn dyddio o gyfnod cyn y cyfarfod diwethaf, ond na adroddwyd arnynt yn flaenorol gan nad oeddent wedi eu datrys ar y pryd.

Nododd aelod ei fod yn croesawu derbyn y cwynion hyn gan eu bod yn rhoi darlun o'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad.

Gan nad oedd amser yn caniatáu rhoi ystyriaeth lawn i'r adroddiad, gwahoddwyd yr aelodau i gysylltu gydag unrhyw gwestiynau.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00yb a daeth i ben am 1:00yp.

**CADEIRYDD**

# Eitem 7

<b>CYFARFOD:</b>	<b>PWYLLGOR IAITH</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>Tachwedd 2020</b>
<b>TEITL:</b>	<b>Trosolwg o effaith Covid 19 ar wasanaethau a gweithgareddau a gynhelir trwy'r Gymraeg</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	<b>Cyflwynir yr adroddiad hwn er mwyn rhoi gwybodaeth i aelodau'r Pwyllgor am effaith Covid 19 ar wasanaethau cyfrwng Cymraeg a phrosiectau sy'n hybu'r Gymraeg.</b>

## 1. Cefndir

1.1. Bwriad yr adroddiad yma yw crynhoi'r cyfleoedd a'r heriau mae adrannau amrywiol wedi eu hwynebu o ran parhau i weithredu'r polisi iaith yn sgil Covid 19 a hefyd rhoi diweddariad ar brosiectau amrywiol sydd wedi eu cyflawni er gwaetha'r sefyllfa ,er mwyn hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd.

## 2. Arolwg o effaith Covid 19 ar allu i barhau i gynnig gwasanaethau Cymraeg a gweithredu polisi iaith

2.1. Er mwyn cael gwybod a wnaeth argyfwng Covid 19 amharu ar allu'r Cyngor i barhau i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg a gweithredu'r polisi iaith anfonwyd arolwg syml i bob adran.

2.2. Yn gyffredinol roedd pawb yn nodi nad oedd y feirws wedi amharu ar eu gallu i ddarparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg gan eu bod wedi addasu eu ffordd o ddarparu gwasanaeth a pharhau i gynnig gwasanaethau trwy'r Gymraeg. Fodd bynnag nododd rhai bod eu staff yn colli'r cyfle anffurfiol i sgwrsio yn y Gymraeg mewn swyddfa yn arbennig y rhai sydd ddim yn cael cyfle i siarad Cymraeg llawer tu allan i'r gwaith.

2.3. Mae'n amlwg bod y pandemig a'r newid i ddarparu rhagor o hyfforddiant arlein wedi bod yn gadarnhaol ac wedi cynnig cyfleoedd newydd i staff Cyngor Gwynedd ddysgu a datblygu eu Cymraeg. Rhoddodd yr argyfwng gyfle i gomisiynu gwersi na allai fod wedi bod yn bosib cyn y pandemig. Er enghraifft, trefnwyd i ddau gohort o ddysgwyr ar ddwy lefel wahanol dderbyn gwersi ar-lein trwy Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin – gwersi a fu'n anodd iawn eu trefnu wyneb-i-wyneb cyn y pandemig oherwydd patrwm gwaith ac argaeledd tiwtoriaid. Bu'r newid i ddysgu ar-lein hefyd yn gymorth i fwy o staff (yn enwedig staff sy'n gweithio shifftiau) fynychu gwersi neu hyfforddiant Cymraeg oherwydd ei fod yn cynnig mwy o hyblygrwydd a llai o waith teithio i leoliad dysgu.

- 2.4.** Nodwyd fod posibilrwydd o ddiffyg cyswllt anffurfiol rhwng swyddogion megis mewn swyddfa, ar y coridor neu yn y gegin, o bosib wedi arafu datblygiad rhai unigolion gan nad yw'r un cyfleoedd ar gael gartref i ymarfer eu sgiliau Cymraeg. Nid oes tystiolaeth i gefnogi hyn, ond mae ein Cynllun Cyfeillion Cymraeg yn cynnig y cyfleoedd anffurfiol hynny i ddysgwyr allu cadw'r momentwm wrth weithio gartref.
- 2.5.** Un pryder a ddaeth i'r amlwg yn yr arolwg oedd nad oedd posib i staff gyfrannu trwy'r Gymraeg bob amser mewn cyfarfodydd allanol rhithiol a oedd wedi eu trefnu gan sefydliadau eraill oherwydd diffyg defnyddio technoleg sy'n galluogi defnydd rhwydd o'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Nid yw pob sefydliad allanol yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd rhithiol ar hyn o bryd gyda rhai yn amharod i ddefnyddio Zoom oherwydd pryderon diogelwch. Rydym fel Cyngor wedi gweithio gyda nifer o bartneriaid i rannu ein profiadau o gynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn rhithiol i'w cynorthwyo i symud ymlaen gyda darpariaeth o'r fath.
- 2.6.** Bu cryn ddefnydd o wefan y cyngor yn ystod y misoedd dan sylw a braf gweld bod defnydd o'r dudalen gartref cyfrwng Cymraeg yn uwch na'r Saesneg.

Cymraeg	Saesneg
Ionawr: 27,457	Ionawr: 19,781
Mai: 19,303	Mai: 18,122
Medi: 26,376	Medi: 23,166

- 2.7.** Cafwyd cais gan Comisiynydd y Gymraeg am wybodaeth am effaith argyfwng Covid 19 ar allu'r Cyngor i barhau i gynnig gwasanaethau trwy'r Gymraeg a chyflwynwyd gwybodaeth berthnasol iddo yn seiliedig ar ein harolwg mewnol. Derbyniwyd hefyd gais gan Brifysgol Bangor i annog staff lenwi holiadur ynghylch dylanwad gweithio o adref ar y Gymraeg.

### **3. Crynodeb o gynnydd prosiectau sy'n hybu'r Gymraeg**

Mae gwaith wedi parhau ar nifer o brosiectau sy'n hybu'r Gymraeg er gwaetha'r argyfwng.

#### **3.1. Dynodiadau iaith**

Dros y misoedd diwethaf, mae'r Bwrdd Prosiect wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd a'r gwaith wedi parhau er gwaethaf yr argyfwng. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi:

- Comisiynu gwersi ar-lein ar lefelau Mynediad a Chanolradd i 2 set o ddysgwyr Byw'n Iach rhwng mis Mai a Gorffennaf er mwyn eu helpu i agosáu at Ddynodiadau Iaith eu swyddi.
- Mae 2 gomisiwn arall ar y gweill ar hyn o bryd, sydd ar gael i holl staff y Cyngor
- Parhau i gasglu asesiadau gan staff y Cyngor ac edrychwyd yn benodol ar drefn casglu asesiadau staff newydd, gyda gwaith yn digwydd ar hyn o bryd i weithredu ar y camau nesaf.
- Datblygu a chyhoeddi system Sgiliau Iaith ar y cyd â'r Gwasanaeth TG sy'n cadw cofnodion o sgiliau iaith staff, caniatáu i reolwyr a staff weld canlyniad eu hunanasesiadau, a galluogi i ni redeg adroddiadau er mwyn dehongli'r data ac ymateb yn briodol, yn ogystal ag adrodd yn unol â gofynion y Safonau Iaith a gweithdrefnau mewnol.

### **3.2. Arfor**

Er gwaethaf pryderon ar gychwyn y cyfnod clo y byddai'n rhaid rhoi stop ar gynlluniau sirol Arfor, mae'r misoedd diwethaf mewn gwirionedd wedi bod yn gyfnod prysur iawn i'r cynllun.

#### **3.2.1. Her Cymunedau Mentrus**

Roedd y grantiau eisoes wedi eu rhannu i 3 prosiect, Partneriaeth Ogwen, Canolfan Henblas a Menter y Plu, a phob un o'r rheiny yn parhau gyda'u cynlluniau neu eu haddasu i wynebu heriau'r pandemig. Mae prosiect Canolfan Henblas wedi ei gwblhau, ag byddwn yn creu stori ar hyn yn y wythnosau i ddod.

#### **3.2.2. Cymorth i Fentro**

Eto, roedd pryder y byddai rhaid newid cyfeiriad gyda'r grant hwn, gyda'r pwysau i gynnal busnesau yn mynd yn gymaint os nad yn fwy na'r angen i roi hwb i fusnesau newydd yn y cyfnod hwn. Serch hynny, cadarnhawyd bod y busnesau hynny, megis Becws Islyn, oedd eisoes wedi derbyn llythyron cynnig yn parhau gyda'u cynlluniau, a pharhawyd i dderbyn ceisiadau ac i drafod prosiectau sefydlu ac ymestyn busnesau. Byddwn yn rhyddhau gwybodaeth am lwyddiannau busnes ym Mhen Llŷn sy'n gysylltiedig â Rhaglen ARFOR a Rhaglen Gwleidydd LEADER dros y misoedd nesaf.

Bu i'r panel gyfarfod 4 gwaith ers mis Ebrill i drafod ceisiadau a phenderfynwyd ceisio bod ychydig bach fwy hyblyg am y math o geisiadau oedd yn cael eu derbyn, a sicrhau cyfleoedd i bobl sefydlu busnesau a chael gwaith llawn amser, yn ogystal ag ehangu busnesau i gynnig cyfleoedd gwaith newydd. Roedd nifer ac ansawdd y ceisiadau a ddaeth i law yn galonogol iawn a dyrannwyd yr holl arian grant a oedd ar gael. Gan ein bod yn awyddus i helpu mwy o fusnesau gwnaed cais am arian ychwanegol gan y Cyngor i gefnogi'r prosiect. Mae cais hefyd wedi ei gyflwyno i'r Llywodraeth am arian cyfalaf fydd yn ein galluogi i ymestyn y gronfa.

Hyd at gychwyn y cyfnod clo, roedd y gronfa wedi derbyn dros 100 o ymholiadau cychwynnol, roedd tua 70 o fusnesau wedi mynd ymlaen i gyflwyno Ffurflen Datgan Diddordeb, 22 wedi gwneud cais ac 19 wedi derbyn cynnig. Mae'r nifer yma wrth gwrs wedi cynyddu erbyn hyn a byddwn yn rhoi diweddariad arall i'r Pwyllgor ddechrau'r flwyddyn.

#### **3.2.3. Llwyddo'n Lleol 2050**

Hwn yw'r cynllun lle y bu'r newid mwyaf dros y cyfnod, ond mae ei lwyddiant wedi bod yn nodedig. Y bwriad gwreiddiol oedd bod pobl ifanc yn cael cyfleoedd i fod yn ddylanwadwyr a'u partneru gyda chwmnïau lleol. Oherwydd y cyfyngiadau, bu rhaid newid cyfeiriad yn llwyr gyda'r cynllun hwn, ac fe ail-lansiwyd y cynllun gan Fenter Môn, gyda'r pwyslais ar gynnig grant hwb i bobl ifanc i greu a gweithredu ar syniadau busnes. Mae'r bobl ifanc wedi bod yn rhannu eu straeon ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae yna gynlluniau ar waith i ddatblygu Llwyddo'n Lleol 2050 dros bedair sir ARFOR.

#### **3.2.4. Ffiws**

Er bod y gofod ym Mhorthmadog wedi gofod cau yn ystod y cyfnod clo, roedd yna fideos a gweithdai yn cael eu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol. Yn dilyn ail agor y gofod rhoddwyd gwahoddiad i bobl fynychu sesiynau un i un. Rydym yn edrych i ddatblygu'r syniad o ofod Ffiws ymhellach mewn ardaloedd eraill yng Ngwynedd dros y misoedd nesaf.

#### **3.2.5. Gwaith Trawsffiniol**

Mae Adroddiad Interim Cynllun Strategol ARFOR wedi ei gwblhau gan gwmni Wavehill gyda'r gwaith gwerthuso ar fin cychwyn. Mae'r gwaith o ymateb i'r adroddiad interim hefyd wedi cychwyn. Bydd mwy o fanylion am hyn ar gael yn y flwyddyn newydd. Yn ystod yr wythnosau nesaf byddwn yn lawnsio gwaith Bwrlwm ARFOR ac yn adnabod busnesau sy'n esiamplau da o ddefnyddio'r Gymraeg a sut allant ddylanwadu ar eraill. yn cael ei lansio yn y bythefnos nesaf.

### 3.3. **Hunaniaith (Menter Iaith Gwynedd)**

- 3.3.1. O ganlyniad i'r pandemig bu'n rhaid i swyddogion Hunaniaith wneud addasiadau mawr o ran y ffordd o hybu a hyrwyddo'r Gymraeg. Gyda gweithio wyneb yn wyneb yn y gymuned yn amhosibl bu'r rhaid dysgu sgiliau newydd ac arbrofi gyda dulliau gwahanol o weithredu. Datblygwyd ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol a darparwyd gweithgareddau arlein am y tro cyntaf trwy blatfformau amrywiol gan gynnwys Facebook, Zoom, Microsoft Teams a Kahoot yn ogystal â chreu gwefan newydd. Golygodd hyn bod modd cynnal mwy o weithgareddau na'r arfer. Yn ystod y 6 mis diwethaf cynhaliwyd 139 o weithgareddau sy'n gynydd sylweddol o gymharu a'r ddwy flynedd blaenorol.

	2018 – 2019 (12 mis)	2019 – 2020 (12 mis)	Ebrill – Medi 2020 (6 mis)
Cyfanswm gweithgareddau	74	88	141

- 3.3.2. Darparwyd amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer teuluoedd, plant a phobl ifanc ac oedolion gan gynnwys dysgwyr. Roedd yr arlyw yn cynnwys cwisiau, tafarn rhithiol, fideo o arbrofion gwyddonol i blant eu gwneud adref, gweithdai celf, gweithdai cyfansoddi can, perfformiadau gan artistiaid, pecyn digidol i helpu grwpiau gwirfoddol gyda chynnal cyfarfodydd rhithiol, darlithoedd ar y cyd gyda chymdeithasau lleol. Ceir crynodeb o'r prif brosiectau yn **atodiad 1**. Unwaith eto eleni comisiynwyd gweithwyr llawrydd i gynnal nifer o'r gweithgareddau er mwyn dangos cyfleoedd masnachol iddynt a cheisio sicrhau cynaladwyedd gweithgareddau o'r fath yn ein cymunedau yn y dyfodol.

#### 3.3.3. **Prosiectau penodol**

Datblygwyd un o brosiectau peilot Huaniaith yn gystadleuaeth genedlaethol Calan Gaeaf ar gyfer Mentrau Iaith Cymru. Fel rhan o ddathliadau Calan Gaeaf tynnwyd sylw at ffigwr blaenllaw o chwedloniaeth Geltaidd ar gyfer Dydd y Meirw, sef Gwyn ap Nudd a chafwyd cystadleuaeth addurno penglog 3d i blant a phobl ifanc. Cynhyrchwyd fideo sy'n adrodd stori Gwyn ap Nudd a thraddodiadau Calan Gaeaf Cymreig efo'r storïwr Gwilym Morus-Baird ac mae i weld ar sianel You Tube Hunaniaith - <https://youtu.be/64bVHxY0-ck>. Cafwyd sylw i'r prosiect yn y wasg ac ar y cyfryngau.

- 3.3.4. Cynhaliwyd gwyl newydd ar gyfer y teulu ar y cyd gyda Canolfan Nant Gwrtheyrn diwedd Hydref sef Gwyl Nantiaith. Cynhaliwyd y digwyddiad ar Facebook a Zoom ac fe'i ddarllledwyd drwy sianel arbennig ar blatfform arlein newydd AMAM sy'n hybu digwyddiadau Cymreig a rhai sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Bu'r digwyddiad yn llwyddiant gyda nifer yn mwynhau'r arlwy. Ein gobaith yw ei chynnal eto yn y dyfodol.



- 3.3.5. Bu i ni hefyd barhau i gynnig cefnogaeth i grwpiau cymunedol a dylanwadu ar eu defnydd o'r Gymraeg. Bu cydweithio gyda thudalen Facebook **Wayne Keeps You Smiling (Bala)** sef ymgyrch Wayne Evans a Ceri Owen i godi calon a chodi arian at achosion da yn lleol yn ystod cyfyngiadau Coronafeirws Mawrth - Gorffennaf 2020. Ar ddechrau'r cyfnod clo un o weithgareddau mwyaf poblogaidd Wayne oedd ymweld â theuluoedd stadau tai tref Y Bala wedi gwisgo fel Batman, tra'n cadw pellter diogel. 'Roedd cyfathrebu ar y dudalen ac mewn person yn uniaith Saesneg gyda "Batman" yn rhannu cyfarchion pen-blwydd ac ati. Mae Wayne yn byw yn Y Bala erioed ac er yn deall Cymraeg yn eithaf da, yn anfodlon ei siarad oherwydd diffyg ymarfer sydd, yn ei dro, wedi arwain at ddiffyg hyder i'w defnyddio.
- 3.3.6. Adnabu Hunaniaith gyfle yma i gydweithio a hefyd i adfywio a chodi ymwybyddiaeth un o chwedlau mwyaf adnabyddus y dref sef stori Ceridwen. Wrth i Ceri wisgo fel Ceridwen a Wayne fel ei gŵr, Tegid Foel, lluniwyd wythnos o weithgareddau a pherfformiadau a oedd wedi'u teilwra i fod yn addas i deuluoedd dwyieithog a phobl o bob oed: yn cynnwys ymweliadau, sgetshis ar y dudalen, taflenni lliwio a chystadleuaeth limrig. Clywyd Wayne yn siarad Cymraeg am y tro cyntaf i'r nifer helaethaf o'r dilynwyr, a bu iddo dderbyn canmoliaeth a chefnogaeth wresog sydd wedi arwain at gynnydd mewn defnydd a hyder i'w defnyddio.
- 3.3.7. Bu swyddog datblygu canolfan iaith Bangor yn cydweithio gyda Menter Iaith Bangor i gomisiynu Canolfan Dysgu Cymraeg y Gogledd Orllewin i gydweithio gyda 6 unigolyn oedd yn rhan o brosiect peilot cenedlaethol i dargedu siaradwyr Cymraeg anfoddog. Cynhaliwyd 6 gwrs ar lein gan Diwtor Cymraeg a gosodwyd tasgau gwaith cartref wythnosol iddynt ynghyd â rhannu gwybodaeth am weithgareddau a digwyddiad cymunedol cyfrwng Cymraeg.
- 3.3.8. Er gwaetha Covid 19 y gobaith yw cynnal Prosiect Awyr Agored Ysgol Tryfan a'r Urdd eto eleni. Mae'r prosiect hwn yn gweithio yn ddwys gyda charfan fechan o bobl ifanc, er mwyn gweld a ellir dylanwadu ar batrymau ac arferion iaith drwy ymyrraeth gyson a chodi eu ymwybyddiaeth o'r cyfleon cyflogaeth lleol sydd ar gael a hynny trwy'r Gymraeg. Caiff y prosiect ei arwain, dan gomisiwn, gan Wasanaeth Awyr Agored yr Urdd. Mae'n cynnwys gweithgareddau awyr agored i 15 o bobl ifanc ac yn eu cyflwyno i weithgareddau newydd, hanes a daearyddiaeth leol yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth am gyfleoedd cyflogaeth mewn maes twf yn lleol a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 3.3.9. Bu Hunaniaith hefyd yn parhau i gydweithio gyda rhai partneriaid allweddol megis Gwasanaeth Ieuenctid, Adran Addysg, Adran Economi a Chymuned, Cymraeg i Blant a Grŵp Llandrillo Menai, Menter Iaith Bangor, Theatr Derek Williams, Amgueddfa Forwrol Llyn, Menter Fachwen, Partneriaeth Ogwen yn ogystal â mentrau iaith eraill Cymru.
- 3.3.10. Ym mis Mawrth rhyddhawyd holiadur gan Hunaniaith er mwyn cael barn y cyhoedd am yr hyn y dylid ei wneud er mwyn hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir a beth a ddylai gael blaenoriaeth yn rhaglen waith y fenter iaith yn y dyfodol. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben diwedd Mehefin. Dengys y canlyniadau bod mwyafrif o'r rhai wnaeth ymateb yn credu y dylid rhoi blaenoriaeth i faes pobl ifanc a dysgwyr.

Bu Hunaniaith hefyd yn cynorthwyo'r llywodraeth i wneud arolwg cymunedol i wybod beth yw effaith y cyfyngiadau yn sgil Covid-19 ar wirfoddoli drwy'r Gymraeg ac ar y grwpiau cymunedol yng Nghymru sydd yn hyrwyddo ac, neu'n defnyddio'r Gymraeg.

**3.4. Map rhyngweithiol o weithgareddau cyfrwng Cymraeg**

Mae'r uned iaith ar y cyd gyda thîm technoleg gwybodaeth wedi bod yn cydweithio er mwyn datblygu map rhyngweithiol a bas data byw ar wefan y Cyngor a fydd yn darparu gwybodaeth am weithgareddau cyfrwng Cymraeg led y sir. Bydd modd i unrhyw un sy'n darparu gweithgaredd cyfrwng Cymraeg gofrestru eu hunain.

**4. Argymhelliad**

Argymhellir bod y pwyllgor yn derbyn a nodi'r adroddiad.

# Prosiectau Hunaniaith Ebrill –Medi 2020

Yn sgil Covid 19 newidodd naws y gwaith i gynnwys gweithgareddau ar-lein, gan ddefnyddio Facebook a Zoom yn bennaf. Yn ogystal â chynhyrchu eitemau wythnosol megis

**Ap yr Wythnos, Cyfrif yr Wythnos, Gwennol o'r Gorffennol** a chwisiau perthnasol, cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol i gyd-fynd â rhaglen gwaith a **thargedau** Hunaniaith:

Prosiect	Cynnwys
<b>Cystadleuaeth Stori Fer</b> ar gyfer pobl ifanc 11-16 oed Gwynedd ar y teitl <b>YNYS Plant &amp; Pobl Ifanc</b>	Cynhaliwyd y gystadleuaeth ar gyfer mis Ebrill i bobl ifanc Gwynedd 11 – 16 oed, gyda <b>Bethan Gwanas</b> yn beirniadu a <b>Tudur Owen</b> yn recordio darlleniad o'r stori fuddugol. Fe'i hysbysebwyd ar Facebook, Trydar, Radio Cymru a thrwy gysylltu â holl benaethiaid Ysgolion Uwchradd. Daeth <b>31</b> ymgais i law a bu i bawb dderbyn adborth personol gan y beirniad. Mae darlleniad Tudur Owen o'r stori fuddugol gan Lea Glyn Jones i'w ganfod ar sianel YouTube Hunaniaith <a href="https://youtu.be/A5kgcAyF2UE">https://youtu.be/A5kgcAyF2UE</a>
<b>Bwrdd Natur Digidol</b> ar dudalen Facebook Hunaniaith <b>Y Teulu</b>	Cystadleuaeth yn gofyn am lun, enw ac ambell ffaith am blanhigyn neu greadur a drigai gerllaw. Y dasg oedd i adnabod yr enw Cymraeg ar y gwrthrychau a rannwyd. Rhoddwyd gwobr o Gamera Bywyd Gwyllt i gyfrannydd a ddewiswyd ar hap.
<b>Caffi Angau Digidol</b> <b>Y Gymuned</b>	Fel rhan o <b>Wythnos Ymwybyddiaeth Byw Nawr (Mai 11-17)</b> cefnogwyd <b>Caffi Angau</b> i gynnal <b>3</b> x sesiwn Zoom
<b>Prosiect Ceridwen: Y Bala</b> mewn cydweithrediad a Thudalen Facebook <b>Wayne Keeps you Smiling (Bala).</b> <b>Y Gymuned</b>	Ers cychwyn cyfyngiadau Coronfeirws bu Wayne Evans a Ceri Owen yn diddanu ar eu tudalen Facebook yn ogystal ag ymweld â stadau tai Y Bala wedi'i wisgo fel Batman, i godi calon a chodi arian at elusennau lleol. Mewn cydweithrediad â Hunaniaith daeth y diddanwch yn gyfle i adfywio un o chwedlau mwyaf adnabyddus y dref sef <b>Chwedl Ceridwen</b> . Gyda Ceri wedi'i gwisgo fel Ceridwen a Wayne fel ei gwr, Tegid Foel, cafwyd ymgyrch wythnos <b>18/05 – 25/05</b> o weithgareddau hwyliog wrth iddynt gyflwyno'r stori, ymweld â stadau'r dref gan gadw at y pellter priodol, rhannu lluniau i'w lliwio a chynnal cystadleuaeth limrig. Cafwyd ymateb gwych i'r gweithgareddau ar lawr gwlad ac i'r postiadau dyddiol gyda <b>4,317</b> cyrhaeddiad ac <b>147</b> ymgysylltiad, a bu <b>29</b> ymgeisydd ar gyfer y limrig  "It's wonderful how you are keeping spirits high... it's not easy for our communities, particularly families with children ! Thank you so much xx "  "Grêt clywed Wayne yn siarad Cymraeg...mae'n neud yn dda!"  "Mae hi'n galonogol iawn i weld ysbryd cymunedol y Bala yn dod â rhywbeth mor werthfawr â hyn yn fyw. Mi fydd hyn yn gyfle arbennig i ddiddanu plant a'u teuluoedd a rhoi gwerau werthfawr iddyn nhw am eu chwedloniaeth leol."

## Prosiectau Hunaniaith Ebrill –Medi 2020

<p>Gweithgareddau mewn partneriaeth â <b>Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd</b> <a href="#">Plant &amp; Pobl Ifanc</a></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwis <b>C'mon Midffild</b></li> <li>• Cwis <b>Cymru</b></li> </ul>
<p><b>Gweithdai Gwyddoniaeth</b> gyda chwmni <b>Sbarduno</b> <a href="#">Plant &amp; Pobl Ifanc</a></p>	<p>Comisiynwyd cwmni <b>Sbarduno</b> i recordio <b>4</b> gweithdy gwyddonol ar gyfer plant oedran pontio. Fe'u gosodwyd ar Sianel YouTube Hunaniaith a'u rhannu ar y dudalen Facebook, gan dagio holl ysgolion cynradd Gwynedd. Maent hefyd wedi'u gosod ar Hwb Addysg y sir.</p>
<p><b>Cynllun Cyfieithu Cymunedol Y Gymuned</b></p>	<p>Ym Mehefin, lansiwyd <b>Cynllun Cyfieithu Cymunedol Hunaniaith</b> ar ei newydd wedd. Yn sgil y sefyllfa sydd ohoni, mae <b>Hunaniaith</b> yn awyddus i gefnogi <b>Cyfieithu Ar Y Pryd (CAP) o bell</b> i grwpiau / mentrau cymunedol ac elusennau yng Ngwynedd, nad ydynt wedi defnyddio CAP o'r blaen.</p> <p>Mewn dealltwriaeth â <b>Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru</b>, bydd y Cynllun yn ymrwmo i wasanaeth cyfieithwyr sy'n gofrestredig gyda'r Gymdeithas ac sy'n gallu darparu'r gwasanaeth o bell ar gyfer cyfarfodydd Zoom, Skype, Teams a'i debyg. Gofynnir i'r grwpiau /mentrau/ elusennau, ar ôl eu gwirio gan Hunaniaith, i gysylltu'n uniongyrchol gyda chyfieithydd i wneud y trefniadau tra bo Hunaniaith yn eu tro yn talu am y gwasanaeth yn uniongyrchol i'r cyfieithydd.</p> <p>Mae'r Cynllun ei hunan mewn bodolaeth ers sawl blwyddyn bellach, ac wedi galluogi'r Gymraeg i ddal ei thir mewn amrywiol gyfarfodydd ar hyd a lled y sir.</p>
<p><b>Grŵp Sgwrsio'r Haf (Llanberis)</b> ar gyfer dysgwyr efo <b>Ann Bierd</b> <a href="#">Y Gymuned</a></p>	<p>Mewn ymateb i angen ddaeth i'r amlwg ar dudalen Facebook <b>Grŵp Cymunedol Llanberis</b>, comisiynwyd tiwtor llawrydd lleol i gynnal grŵp ymarfer sgwrsio a dysgu anffurfiol ar Zoom, dros wythnosau'r haf, mewn cyfres o <b>6</b> sesiwn, i bobl lleol.</p>
<p><b>Nonsens a Nodau</b> efo <b>Mair Tomos Ifans</b> <a href="#">Y Teulu</a></p>	<p>Comisiynwyd <b>Mair Tomos Ifans</b> i greu cyfres o <b>10</b> fideo er mwyn cyflwyno caneuon traddodiadol sy'n addas ar gyfer plant 7-11 oed (a'u oedolion) bob wythnos. Teitl y gyfres ydy <b>Nonsens a Nodau</b> oherwydd bod gan y caneuon a ddewiswyd eiriau nonsens, neu iaith y Tylwyth Teg, yn ôl rhai! Fe'u gosodwyd ar Sianel YouTube Hunaniaith a'u rhannu ar y dudalen Facebook</p>
<p><b>Darlithoedd Llwr Gwlad</b> <a href="#">Y Gymuned</a></p>	<p>Cyfres o ddarlithoedd misol, tan ddiwedd y flwyddyn, gan haneswyr lleol, arbenigwyr yn eu maes ac ambell ysgolhaig, i'w darlledu'n fyw drwy Zoom ar Facebook neu drwy rannu dolen i Sianel YouTube Hunaniaith. Hyd yn hyn cafwyd sesiwn gan <b>Gareth Roberts o Fenter Fachwen</b> a <b>Geraint Jones o Ganolfan Hanes Uwchgryrfai</b>.</p>
<p><b>Gweithdai Crefft i'r Teulu</b> efo <b>Lora Morgan</b> <a href="#">Y Teulu</a></p>	<p>Comisiynwyd <b>Lora Morgan</b> i gynnal <b>4</b> gweithdy crefft ar Zoom ar gyfer plant oed CA2 a'u hoedolion, yn wythnosol gydol Gorffennaf. 'Roedd y sesiynau hyn yn gyfyngedig i drigolion Gwynedd.</p>

# Prosiectau Hunaniaith Ebrill –Medi 2020

<p><b>Gweithdai Celf</b> efo <b>Tess Urbanska Evans</b> <a href="#">Plant &amp; Pobl Ifanc</a></p>	<p>Comisiynwyd <b>Tess Urbanska Evans</b> i greu <b>4</b> gweithdy celf ar fideo, i'w dangos yn wythnosol gydol Awst. Seiliodd Tess y gweithdai ar greu gwrthrychau deniadol o ddeunyddiau oedd i'w cael yn y cartref neu heb fod angen crwydro ymhell i'w canfod.</p>
<p>Cydlynu, cefnogi a chynnal <b>gweithgareddau cenedlaethol Mentrau Iaith Cymru:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Tafarn y Clo</b> <a href="#">Y Gymuned</a></li> <li>• <b>Ras yr Iaith Y Teulu</b></li> <li>• <b>Cystadleuaeth Bwgan Brain Y Teulu</b></li> <li>• <b>Clwb Theatr Cymru</b> efo <b>Theatr Genedlaethol Cymru</b> <a href="#">Plant a Phobl Ifanc</a></li> </ul>	<p><b>Tafarn y Clo:</b> Dyma dafarn deithiol, rhithiol sy'n ymweld â <b>Mentrau Iaith</b> ar hyd a lled Cymru gydol yr haf . Tro Hunaniaith oedd ei chynnal ar <b>15 Gorffennaf</b> rhwng <b>8 a 10</b> yr hwyr. Darparwyd noson o adloniant byw yn cynnwys 'stafell gomedi efo <b>Dilwyn Morgan</b>, snyg y dysgwyr efo <b>Martyn Croydon</b>, barddoni hwyliog efo <b>Osian Bonc</b> a set gerddorol gan <b>Bwncath</b>...yn ogystal a llu o gwisus a chystadlaethau.</p> <p><b>Clwb Theatr Cymru:</b> <b>4</b> sesiwn cenedlaethol ar Zoom drwy gydol Awst, wedi'u hyrwyddo a chydlynu yng Ngwynedd gan Hunaniaith. Gweithiodd Hunaniaith hefyd i fonitro'r weithgaredd wrth fod yn bresennol yn y sesiynau, a thrwy gynnal y cyswllt cyson â rhieni'r plant a fynychodd.</p>
<p><b>Gweithdai Cyfansoddi Cân</b> efo <b>Branwen Haf</b> ac <b>Osian Huw</b> <a href="#">Plant a Phobl Ifanc</a></p>	<p><b>2</b> sesiwn ar gyfer oedran CA2 a CA3 i'w cynnal ar Zoom i blant a phobl ifanc Penllyn, mewn cydweithrediad â <b>Theatr Derek Williams</b> ac ysgolion lleol.</p>
<p><b>Teithiau Cerdded mewn partneriaeth</b> â <b>Clwb Mynydda Cymru</b> <a href="#">Y Gymuned</a></p>	<p>Cyhoeddi dehongliad <b>7</b> taith drefnwyd gan Glwb Mynydda Cymru yn ystod 2019 ar lwyfannau digidol Hunaniaith gyda chydweithrediad y Clwb.</p>
<p><b>Paned a Sgwrs Dysgwyr Dwyfor.</b> <a href="#">Y Gymuned</a></p>	<p>Mae Swyddog Datblygu Iaith Dwyfor yn ymuno yn wythnosol â'r gweithgaredd yma drwy Skype. Cydlynir gan y Diwtor Drefnydd Dysgu Cymraeg (Dwyfor) gyda swyddog Hunaniaith yn arwain sgwrs awr efo 3-4 o ddysgwyr, mewn is-grŵp.</p>
<p><b>Teithiau Cerdded i Ddysgwyr</b> efo <b>Gareth Roberts (Menter Fachwen)</b> ac ar y cyd ac <b>Amgueddfa Forwrol Llŷn.</b> <a href="#">Y Gymuned</a></p>	<p>Teithiau ar y gweill ym Medi: yn Nwyfor ac Arfon mewn cydweithrediad a Dysgu Cymraeg GO</p>
<p><b>Pecyn Diogelwch Gweithgareddau Cymunedol</b> <a href="#">Y Gymuned</a></p>	<p>Crewyd pecyn yn cynnwys posteri priodol â ddylunwyd gan <b>Charlie Britton</b>, canllawiau, a manylion protocol yn ystod y cyfnod yma; i'w rannu ymhlith mentrau cymunedol a chynghorau plwyf y sir.</p>
<p><b>Gwefan Hunaniaith</b> <a href="#">Y Gymuned</a></p>	<p>Cydweithio â <b>Meirion MacIntyre Huws</b> i greu gwefan newydd i'w lansio ym Medi.</p>

# Eitem 8

<b>CYFARFOD:</b>	<b>PWYLLGOR IAITH</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>12 Tachwedd 2020</b>
<b>TEITL:</b>	<b>Safonau'r Gymraeg a Pholisi Iaith y Cyngor</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>Gwenllian Mair Williams</b> <b>Ymgynghorydd Iaith</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	Cyflwynir adroddiad cryno ar ddatblygiadau ym maes Safonau'r Gymraeg a Pholisi Iaith y Cyngor dros y chwe mis diwethaf, gan gynnwys Adroddiad Blynyddol y Safonau, Adroddiad Sicrwydd blynyddol y Comisiynydd a diweddariad ar fwriad i adolygu'r polisi iaith.  Angen cymeradwyaeth ffurfiol hefyd i Adroddiad Blynyddol y Safonau.

## Cefndir

Cyflwynir yr adroddiad hwn i roi diweddariad bras ar waith sydd wedi bod yn mynd rhagddo dros y misoedd diwethaf yng nghyd-destun y Safonau Iaith a'n dyletswyddau adrodd.

Yn gyffredinol, rydym yn dal i lwyddo i gydymffurfio gyda gofynion y Safonau, ond mae nifer o feysydd o bryder yn codi yn aml hefyd, ac mae themâu pendant yn codi drwy'r adroddiadau blynyddol, sydd yn rhoi sail i ni weithredu arno dros y misoedd i ddod.

Rydym wedi bod yn rhagweithiol wrth gysylltu gyda'r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, i drafod rhai materion o bwys a phryder, megis y rhwystrau sydd yna wrth i ni gomisiynu systemau ac apiau allanol. Drwy gael sgwrs agored, rydym yn gobeithio gallu datblygu dealltwriaeth rhyngom am yr hyn sydd yn bosib, a hefyd i gael cefnogaeth ganddynt i ddylanwadu ar gyrff allanol sydd ar brydiau yn anwybodus am statws yr iaith a gofynion y Safonau yng Nghymru.

## 1. Adroddiad Blynyddol y Safonau

1.1 Yn unol â gofynion y Safonau Iaith, a osodwyd ar y Cyngor dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gofyn i'r Cyngor lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol

erbyn **30 Mehefin** bob blwyddyn sy'n dangos sut y mae'r corff wedi sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r safonau sydd wedi eu gosod ar y Cyngor.

1.2 Mae gofyn i ni adrodd ar nifer o bethau, gan gynnwys canlyniadau unrhyw asesiadau sgiliau iaith sydd yn cael eu cynnal, nifer y swyddi sydd wedi eu hysbysebu lle'r oedd gofyn am sgiliau yn y Gymraeg, nifer y digwyddiadau hyfforddiant cyfrwng Gymraeg sydd wedi eu cynnig i staff a nifer y cwynion sydd wedi eu derbyn gan y sefydliad yn erbyn y Safonau.

1.3 Mae hefyd yn gyfle i dynnu sylw at unrhyw waith datblygol ac enghreifftiau o arfer da wrth weithredu'r Safonau a sicrhau gwasanaethau cyfrwng Gymraeg i drigolion y sir.

1.4 Mae angen i'r Pwyllgor Iaith gymeradwyo'r adroddiad hwn yn ffurfiol a nodi unrhyw faterion yr hoffent wybodaeth neu drafodaeth bellach arnynt.

1.5 Gellir gweld yr adroddiad llawn drwy ddilyn y linc yma:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Safonau-r-iaith-Gymraeg/Adroddiad-Blynyddol-Safonau-Iaith-Gymraeg-Cyngor-Gwynedd-2019-2020.pdf>

1.6 Rhoir crynodeb isod o brif bwyntiau'r adroddiad:

- **Heriau:**

Un o'r heriau mwyaf sydd yn ein hwynebu yw sut ydym yn addasu i ddefnyddio mwy o dechnoleg ac i sicrhau nid yn unig y dewis iaith a'r cynnig rhagweithiol, ond sut rydym yn gallu annog y trigolion i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'n gwasanaethau.

- **Meysydd datblygol:**

Adroddwyd ar waith datblygol yn y meysydd canlynol:

- **Datblygu gwell dealltwriaeth o arferion pobl**
- **Defnydd o dechnoleg a gwasanaethau ar-lein**
- **Asesu effaith**
- **Dynodiadau iaith – mapio lefelau iaith swyddi a sgiliau staff**

- **Adroddiad Sgiliau:**

Rhodddwyd darlun cyffredinol o sefyllfa'r Cyngor o ran sgiliau iaith ei staff. Fel y bydd y Pwyllgor yn ymwybodol, mae cryn dipyn o waith wedi bod yn cael ei wneud yn y maes hwn gyda phrosiect y Dynodiadau Iaith, ac roeddem yn adrodd am y tro cyntaf yn defnyddio'r data sydd yn cael ei gasglu drwy system newydd y Dynodiadau.

Roedd y darlun cyffredinol ar gyfer y flwyddyn yn edrych fel a ganlyn:

Nifer yr aelodau staff (nifer pobl ar gyflogres y Cyngor), heb gynnwys staff ysgolion	<b>3,677</b>
Nifer aelodau staff a aseswyd hyd yma	<b>3034</b>
Nifer sydd yn cyrraedd gofynion y swydd o'r rhai a aseswyd	<b>2765 (91.1%)</b>
Nifer nad ydynt yn cwrdd a gofynion y swydd	<b>269 (8.9%)</b>
Nifer aelodau staff a aseswyd i fod heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg (holl adrannau'r Cyngor)	4

## 2. Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd Gymraeg 2019-20 - Cau'r Bwlch

- 2.1 Bob blwyddyn bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cyhoeddi adroddiad sydd yn ganlyniad gwaith ymchwil, arsylwi a holi grwpiau ffocws gan ei swyddogion, ac sy'n dangos eu canfyddiadau am lwyddiant sefydliadau i weithredu a chydymffurfio gyda'r Safonau.
- 2.2 Bydd y Comisiynydd yn dod i gasgliadau am lwyddiannau neu fethiannau i gydymffurfio gyda'r Safonau ar sail sawl peth:
- i) Canfyddiadau'r Comisiynydd yn dilyn gwaith monitro cwynion ac achosion penodol o fethiant i gydymffurfio.
  - ii) Arolygon barn ac ymgysylltu gyda'r cyhoedd mewn grwpiau ffocws
  - iii) Gwaith arsylwi, cyfweiliadau a cheisiadau gwybodaeth a thystiolaeth ar destunau penodol gyda sefydliadau
- 2.3 Nid yw'r adroddiad yn cyfeirio yn benodol at sefydliadau unigol - ar wahân i pan fydd yn cyfeirio at arferion da - ond yn hytrach yn cynnig darlun cyffredinol o le mae sefydliadau arni o ran gweithredu'r safonau a'r hyn sydd angen gwella.
- 2.4 Erbyn hyn, mae'n debyg bod themâu cyson yn codi yn adroddiadau'r Comisiynydd, a hynny yn ein gorfodi i feddwl o ddifrif a ydym ni'n gwneud yr oll y dylem ac yr oll y gallem ei wneud mewn rhai meysydd. Mae annog pobl i ddefnyddio'r gwasanaethau Cymraeg, er enghraifft, bellach yn thema gyson gan y Comisiynydd, yn ogystal â threfniadau monitro mewnol a phwysigrwydd y safonau asesu effaith, a sut yr ydym yn ystyried effaith penderfyniadau'r Cyngor ar y Gymraeg yn y cymunedau.
- 2.5 Cafodd adroddiad sicrwydd y Comisiynydd ar gyfer 2019-20, dan y teitl **Cau'r Bwlch**, ei lansio ym mis Medi. Mae'r adroddiad yn cynnig dadansoddiad o berfformiad cyffredinol sefydliadau dan 4 teitl: **Darparu a hybu gwasanaethau; Trefniadau cydymffurfio; Capasiti'r gweithlu; a Hybu'r Gymraeg**. Gwelir bod pwyslais mawr yn cael ei roi ar yr angen i weithredu mewn dau faes yn benodol dros y misoedd nesaf, sef sut mae sefydliadau yn mynd ati i:



- Asesu Effaith, a;
- Creu shiftt yn iaith y defnyddwyr gwasanaethau

1.6 Cyfeiriwyd hefyd at y **Strategaethau Hybu**, gyda'r adroddiad yn nodi nad yw yn glir i'r Comisiynydd faint o weithgareddau newydd sydd yn cael eu cynnal o ganlyniad uniongyrchol i'r strategaethau hybu – sef gweithgareddau sydd y tu hwnt i wasanaethau dyddiol y Cyngor ac sydd yn mynd ati yn fwriadol i hybu defnydd o'r Gymraeg. Cafwyd beirniadaeth hefyd nad oes cyllid ac adnoddau digonol i'w weld yn cael ei glustnodi gan sefydliadau ar gyfer gweithredu'r strategaethau a'r cynlluniau hyn. Cafwyd neges glir bod angen i sefydliadau ystyried hyn yn ofalus wrth adolygu eu strategaethau ar gyfer 2021-22 (yn ddiweddarach ar gyfer Gwynedd).

### 3. Adolygu'r Polisi Iaith

3.1 Yn gynharach eleni dechreuwyd edrych ar adolygiadau posib i'r polisi iaith. Cymerwyd y cam hwn am fod teimlad bod newidiadau mawr wedi bod yn y modd y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau ers i'r Polisi cyfredol gael ei lunio mewn ymateb i osod y Safonau Iaith. Roedd teimlad nad yw rhai rhannau o'r Polisi yn ddigon cadarn ac eglur ac nad yw yn cwmpasu'r holl sefyllfaoedd y mae gwasanaethau yn delio gyda nhw o ddydd i ddydd. Nid oes cymalau penodol, er enghraifft yn delio gyda'r modd y caiff yr iaith Gymraeg ei defnyddio yn systemau TG y Cyngor.

3.2 Mae rhai newidiadau yn cael eu cynnig felly fel ffordd o roi eglurder ar faterion lle mae cwynion wedi eu derbyn, neu lle rydym yn sylweddoli bod aneglurder sydd yn arwain at anghysondeb.

3.3 Mae'r newidiadau a gynigir wedi eu rhannu yn ddau gategori –

**Newidiadau gweinyddol;** sydd yn golygu man newidiadau i olygu geiriad, er mwyn gwneud gofynion yn fwy eglur, neu ychwanegu cymalau sydd yn adlewyrchu meysydd gweithredu nad ydynt yn cael eu cwmpasu ar hyn o bryd, ac nad yw yn golygu unrhyw newid mawr o ran yr egwyddor gweithredu.

**Newidiadau mawr / egwyddor;** sydd yn golygu bod angen trafod a chael cytundeb ar y modd yr ydym yn gweithredu mewn rhai cyd-destunau. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd sydd ddim o reidrwydd yn cael eu cynnwys fel rhan o'r Safonau, neu lle mae cyfleoedd i ni fel Cyngor fod yn gosod egwyddorion o'r newydd er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cymryd pob cyfle i hybu'r Gymraeg.

3.4 Byddwn yn cyflwyno eitem ar ddiwygiadau posib i'r Polisi yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Iaith.

### 4. Yr hyn a geisir gan y Pwyllgor?

Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor ystyried cynnwys yr adroddiad hwn, gan gynnig unrhyw sylwadau perthnasol neu argymhellion o ran blaenoriaethu gwaith.